

## PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MAWRTH, 9 MAI 2023

Yn bresenol: Aelodau Annibynnol: Jason Bartlett (Cadeirydd)  
Arthur Hallett, David Mills and Chrissie Nicholls

Y Cynghorwyr: Cowan, Cunnah a/ac Latif

Cynghorydd Cymuned Julia Charles

Hefyd yn bresenol: Cyng Thomas a Gunter (Arweinydd Grŵp, Grŵp Lafur)  
Cyng Rboson (Arweinydd Grŵp, Grŵp Ceidwadol)  
Cyng Berman (Arweinydd Grŵp, Grŵp y Democratiaid  
Rhyddfrydol)

### 44 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Rashpal Singh, Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb hefyd gan y Cynghorwyr Joe Carter a Dan Naughton, Chwip Grŵp a wahoddwyd i'r cyfarfod.

### 45 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

### 46 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 14 Chwefror 2023 a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

### 47 : ARWEINWYR GRŴP YN ADRODD I BWYLLGOR SAFONAU A MOESEG; A NEWIDIADAU POSIBL I GOD YMDDYGIAD AELODAU (HYFFORDDIANT GORFODOL) AC YMRWYMIAD CAERDYDD

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am gyflawni dyletswyddau statudol newydd Arweinwyr Grŵp mewn perthynas â safonau ymddygiad aelodau o'u grwpiau. Roedd hefyd yn darparu gwybodaeth am newidiadau posibl i'r Cod Ymarfer Aelodau mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol ac Ymrwymiad Caerdydd.

Nododd yr Aelodau, o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bod gofyn i Arweinwyr Grŵp pleidiau gwleidyddol wneud yr hyn y gallent yn rhesymol i orfodi a chynnal safonau ymddygiad uchel o fewn eu grwpiau, a bod gan y Pwyllgor ddyletswydd gyfatebol hefyd i fonitro hyn. Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau a ddarparwyd gan bob Arweinydd Grŵp yn nodi sut yr oeddent wedi cyflawni'r ddyletswydd hon, a diolchwyd arweinwyr y Grŵp am eu hymgysylltiad cadarnhaol â'r dyletswyddau statudol a'r trefniadau adrodd newydd. O ran y Cod Ymddygiad, nododd yr Aelodau y diwygiadau posibl a oedd wedi'u drafftio fel y trafodwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor i'w gwneud yn ddyletswydd ar Aelodau i fynychu hyfforddiant gorfodol.

Trafododd y Pwyllgor yr amserlen a'r cyfleoedd ar gyfer mynychu hyfforddiant gorfodol, cefndir a gorfodadwyedd yr Ymrwymiad, a nododd fod Lwfans Gofalwr ar gael. Y consensws ar yr amserlen y dylid cwblhau hyfforddiant gorfodol o fewn 6 mis o'r dyddiad y cafodd ei ddarparu, a chytunwyd y dylid diwygio'r diwygiadau drafft a argymhellir (Atodiad C i'r adroddiad) ymhellach yn unol â hynny.

Nododd yr Aelodau wrthdaro buddiannau posibl i Arweinwyr Grwpiau ers iddynt gael eu hethol gan aelodau eu grŵp, a phwysleisiodd bwysigrwydd tryloywder ym mhroses y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o benderfynu pa hyfforddiant oedd yn orfodol.

Rhodddwyd gwybod i'r Aelodau nad oedd arweiniad penodol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cymell Aelodau i ymgymryd â hyfforddiant, ac eglurwyd bod gofynion hyfforddiant yr Aelodau wedi'u gosod ar gyfer pob tymor yn y swydd.

Y farn fwyafrifol oedd bod Ymrwymiad Caerdydd yn rhoi cyfle defnyddiol i'r Aelodau ailddatgan eu hymrwymiad i safonau ymddygiad uchel; a bod ymrwymiad ychwanegol, y tu hwnt i'r dyletswyddau statudol a osodwyd o dan y Cod Ymarfer, i'w groesawu. Awgrymwyd y dylid adolygu'r Ymrwymiad i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1. Nodi Adroddiadau'r Arweinwyr Grŵp ar gyflawni eu dyletswyddau statudol newydd mewn perthynas â safonau ymddygiad (Atodiadau B1-B4);
- 2a. Argymhellwn i'r Cyngor llawn ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau i ymgorffori dyletswydd i fynychu'r holl hyfforddiant gorfodol o fewn chwe mis i'r dyddiad y mae ar gael gyntaf, oni bai bod esgus rhesymol, fel y nodir yn Atodiad C;
- 2b. Argymhellwn i'r Cyngor llawn ddiwygiad Ymrwymiad Caerdydd fel y dangosir ym mharagraff 16 yr adroddiad; a
- 2c. Cytuno i dderbyn adroddiad pellach gan Arweinwyr Grwpiau ar gydymffurfio â'u dyletswyddau statudol mewn perthynas â safonau ymddygiad ymhen chwe mis.

#### 48 : CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL DE-DDWYRAIN CYMRU - IS-BWYLLGOR SAFONAU

Rhodddodd yr adroddiad gefndir i'r Aelodau ar y cais i Bwyllgor Safonau a Moeseg Caerdydd gael ei ddefnyddio fel Is-bwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru ar sail gychwynnol, tan fod y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn gwbl weithredol ac yn barod i sefydlu ei Is-bwyllgor Safonau ei hun.

Cytunodd yr Aelodau ar bwysigrwydd cadw llygad ar y gost a chapasiti'r swyddogion ac adolygu'r trefniant ar ôl cyfnod penodol o amser, megis, deuddeg mis.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1. Cytuno, mewn egwyddor, â'r cais i Bwyllgor Safonau a Moeseg Caerdydd gymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau statudol is-bwyllgor safonau Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, yn amodol ar:
  - a) Cadarnhad o'i ddynodi a dirprwyo swyddogaethau gan Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru;
  - b) Derbyn a dirprwyo gan Gyngor Caerdydd, gan gynnwys cymeradwyo'r diwygiadau angenrheidiol i gylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau a Moeseg;
  - c) Cytundeb Lefel Gwasanaeth i'w gwblhau rhwng Cyngor Caerdydd a Chyd-bwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru i gytuno y bydd y Cyd-bwyllgor yn talu am unrhyw gostau a rhwymedigaethau ychwanegol yr eir iddynt ac yn cynnwys darpariaeth i'w hadolygu ar ôl 12 mis a therfynu'r trefniadau, fel y nodir yn yr adroddiad; a
2. Nodi y bydd adroddiad diweddarau ar y mater hwn yn cael ei ddychwelyd i gyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor.

49 : YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU - YMATEB I ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL (ADRODDIAD RICHARD PENN)

Rhoddodd yr adroddiad wybodaeth i'r Aelodau am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr ymateb i argymhellion yr adolygiad annibynnol o'r fframwaith safonau moesegol i Gymru (Adroddiad Penn, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021), a cheisiodd gytuno ar ymateb y Pwyllgor.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1. Nodi'r wybodaeth a nodir yn yr adroddiad ac Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr Ymateb i'r Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (Atodiad B);
2. Cymeradwyo'r Ymateb Ymgynghori drafft sydd ynghlwm fel Atodiad C; a
3. Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i gwblhau a chyflwyno'r ymateb i'r ymgynghoriad (Atodiad C) ar ran y Pwyllgor.

50 : DIWEDDARIAD AR GWYNION COD YMARFER AELODAU - CHWARTER 4 2022/2023

Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gwynion a wnaed yn erbyn Aelodau o Gyngor Caerdydd neu unrhyw un o Gynghorau Cymuned Caerdydd yn honni eu bod wedi torri Cod Ymarfer Aelodau, yn benodol, cwynion a hysbyswyd i'r Swyddog Monitro yn ystod Chwarter 4 2022/23 (y cyfnod sy'n rhedeg o 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2023).

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; a
2. Gofyn i'r Cadeirydd ysgrifennu at yr Aelod unigol nad yw eto wedi mynychu'r hyfforddiant Cod Ymddygiad gorfodol, os na chaiff yr hyfforddiant hwn ei gwblhau o fewn cyfnod rhesymol o amser, i'w hannog i wneud hynny.

51 : RHAGLEN WAITH 2023 - 2024

Nododd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro y byddai angen i eitem ychwanegol fynd ar y rhaglen waith sy'n ymwneud ag Ymrwymiad Caerdydd, ar ôl cyfnod ymgynghori gyda'r grwpiau gwleidyddol.

Holodd yr Aelodau statws yr Arolwg Aelodau, y cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Monitro y byddai'n dod yn ôl i'r Pwyllgor maes o law.

PENDERFYNODD y Pwyllgor:

Cymeradwyo'r Rhaglen Waith fel y nodir yn Atodiad A, gan ychwanegu adolygiad o Ymrwymiad Caerdydd i'w drefnu yn unol â'r adnoddau sydd ar gael.

52 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

53 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I'w gadarnhau ar ôl cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 23 Mai.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.30 pm